

TLODI AC ANGHYDRADDOLDEB



PAM MAE'N BWYSIG

Gall tlodi gyfyngu ar allu person ifanc i gael mynediad at addysg, cyflogaeth, hyfforddiant a chyfleoedd a allai eu helpu i greu dyfodol gwell. Pan nad yw pobl ifanc yn cael cyfleoedd neu gymorth ystyrlon, gall tlodi droi'n gylch sy'n anodd ei dorri.

Ni ddylid diffinio pobl ifanc yn ôl eu hamgylchiadau ariannol na'u stereoteipio oherwydd eu bod yn profi tlodi. Mae angen i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ddeall realiti tlodi a gweithio'n uniongyrchol gyda'r cymunedau y mae'n effeithio arnynt.

Y MATERION

Nododd pobl ifanc ar draws y gwledydd fod tlodi'n effeithio ar gyfleoedd, annibyniaeth ac ansawdd bywyd. Mae'r argyfwng costau byw yn rhoi pwysau cynyddol ar unigolion a theuluoedd, tra nad yw'r isafswm cyflog presennol bob amser yn ddigon i ddarparu incwm byw.

Tynnodd pobl ifanc sylw hefyd at ddiffyg dealltwriaeth ymhlith y rhai sy'n gwneud penderfyniadau o realiti tlodi, yn ogystal â chamgynrychioli pobl sy'n byw mewn tlodi. Roeddent yn teimlo bod tlodi'n cael ei drin yn rhy aml fel rhywbeth anochel, yn hytrach na rhywbeth y gellir mynd i'r afael ag ef drwy fuddsoddiad, cyfleoedd a chymorth ystyrlon.

BETH DYWEDODD POBL IFANC?

Nododd pobl ifanc ar draws y gwledydd:

Yr argyfwng costau byw

Diffyg dealltwriaeth o realiti tlodi

Diffyg cyfleoedd i helpu pobl ifanc i ddianc rhag tlodi

Nad yw'r isafswm cyflog presennol yn gyflog byw

Camgynrychioli pobl sy'n profi tlodi

Cyfleoedd yn cael eu cynnig yn bennaf i bobl ifanc sy'n 'hawdd eu cyrraedd'

Amharodrydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ddysgu gan y cymunedau y mae tlodi'n effeithio fwyaf arnynt ac i ymgynghori â hwy

Rhannodd pobl ifanc hefyd yr hyn sy'n helpu:

Cymorth ariannol, gan gynnwys grantiau, i gefnogi addysg a hyfforddiant

Mwy o ddylanwad i bobl ifanc o fewn llywodraeth

Canolbwyntio ar gymunedau gwledig a difreintiedig

Buddsoddi mewn addysg sgiliau bywyd a chyflogaeth

Cefnogi prosiectau gwaith ieuenctid

BETH RYDYM AM I'R RHAI SY'N GWNEUD PENDERFYNIADAU EI WNEUD

Gwneud i waith dalu – sicrhau bod isafswm cyflog a chyfleoedd cyflogaeth yn rhoi incwm byw i bobl ifanc a llwybr gwirioneddol at annibyniaeth ariannol.

Buddsoddi mewn cyfleoedd sy'n herio tlodi – darparu grantiau a chymorth ariannol sy'n galluogi pobl ifanc i gael addysg, hyfforddiant a chyfleoedd i wella eu dyfodol.

Cyrraedd y bobl ifanc sydd angen cymorth fwyaf – sicrhau bod rhaglenni a chyfleoedd ar gael i bobl ifanc mewn cymunedau gwledig, difreintiedig ac anoddach eu cyrraedd, yn hytrach na chynnwys yr un grwpiau dro ar ôl tro.

Gwrando ar gymunedau sy'n profi tlodi – dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ymgynghori'n weithredol â'r bobl a'r cymunedau yr effeithir arnynt fwyaf, a dysgu ganddynt wrth lunio polisiau ac atebion.

Rhoi dylanwad ystyrion i bobl ifanc mewn llywodraeth – creu cyfleoedd i bobl ifanc sy'n profi tlodi siapio'n uniongyrchol y polisiau a'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Buddsoddi mewn gwaith ieuenctid a sgiliau bywyd a chyflogaeth – cydnabod rôl gwaith ieuenctid wrth feithrin hyder, sgiliau, cysylltiadau a chyfleoedd sy'n helpu pobl ifanc i ddod o hyd i lwybr allan o dlodi.

Herio stigma a chamgynrychiolaeth – newid y ffordd y trafodir ac y cynrychiolir tlodi, gan gydnabod ei achosion strwythurol yn hytrach na beio unigolion am eu hamgylchiadau.

CYNLLUN GWEITHREDU

Sut bydd llwyddiant yn edrych

Mae pobl ifanc sy'n profi tlodi yn gallu cael mynediad at addysg, hyfforddiant a chyfleoedd a all wella eu dyfodol.

Mae cymunedau gwledig a difreintiedig yn cael buddsoddiad a chymorth ystyrlon.

Mae gan bobl ifanc sy'n profi tlodi lais ystyrlon mewn llywodraeth a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Deallir bod tlodi yn fater strwythurol, nid yn fethiant personol, ac nid yw pobl ifanc yn cael eu diffinio na'u barnu yn ôl eu hamgylchiadau ariannol.

Mae gan bobl ifanc gyfleoedd gwirioneddol i greu dyfodol diogel ac annibynnol, beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau ariannol.